



NHS
*National Institute for
Health Research*

PECYN CROESO

**Diolch i chi am
Gofrestru**



**Gallwch ddod
o hyn i ni ar:**

 **Twitter**
@beatdementia

 **Facebook at**
/joindementiaresearch

a Cyllidir 'Join dementia research' gan yr Adran Iechyd
ac mae'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r Sefydliad
Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd, Alzheimer Scotland,
Alzheimer's Research UK a Chymdeithas Alzheimer.





PAM MAE YMCHWIL DEMENTIA YN BWYSIG?

Mae dementia yn un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu heddiw. Mae nifer y bobl sydd â chlefyd Alzheimer, dementia fasgwlaidd, a mathau eraill o ddementia, yn debygol o ddyblu dros y 30 mlynedd nesaf. Mae ymchwil yn cynnig gobaith. Dim ond trwy ymchwil y gallwn ddeall beth sy'n achosi dementia, datblygu triniaethau effeithiol, gwella gofal dementia a gobeithio dod o hyd i ffordd o'i wella ryw ddiwrnod. Ond er mwyn gwneud cynnydd gydag ymchwil, rydym angen mwy o bobl i gymryd rhan mewn astudiaethau dementia. Mae ymchwil dementia yn arbennig o bwysig oherwydd bod ein gwybodaeth am ddementia ar hyn o bryd yn llusgo ar ôl ein gwybodaeth am brif glefydau eraill, fel canser neu glefyd y galon. Mae'n rhaid i ni gau'r bwlch hwn.

BETH YW 'JOIN DEMENTIA RESEARCH'?

Rhestr o wirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n canolbwyntio ar y clefydau sy'n achosi dementia yw 'Join dementia research'. Mae'n caniatáu i bobl roi gwybodaeth amdanynt eu hunain fel bod modd cysylltu â hwy ynghylch astudiaeth ymchwil berthnasol a allai fod yn addas iddynt gymryd rhan ynddi.

BETH YW MANTEISION COFRESTRU?

Drwy gofrestru gyda 'Join dementia research' rydych yn cynyddu'ch siawns o gael cais i ystyried cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil dementia sydd wedi'i chymeradwyo'n foesebol. Mae cymryd rhan mewn ymchwil yn brofiad gwerth chweil i lawer o bobl ac maent yn mwynhau'r cyswllt â thimau ymchwil. Bydd yr holl astudiaethau sy'n defnyddio 'Join dementia research' wedi cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil. Golyga hyn eu bod wedi cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn amddiffyn hawliau, diogelwch a lles pobl sy'n ymwneud ag ymchwil.

Efallai na fydd cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil o fudd uniongyrchol i chi, ond efallai y bydd yn helpu pobl yn y dyfodol. Mae'n bosib na fydd unrhyw astudiaethau addas ar gyfer rhai gwirfoddolwyr, ond mae astudiaethau ymchwil newydd yn dechrau yn barhaus, a allai fod yn addas iddynt.

MAE GAN 25 MILIWN O BOBL YN Y DU FFRIND NEU AELOD TEULU SY'N DIODDEF O DDEMENTIA.



PWY FYDD YN GALLU GWELD FY NGWYBODAETH AR 'JOIN DEMENTIA RESEARCH'?

Rheolir eich gwybodaeth gan dîm o staff yn University College London (UCL), sy'n gweithio dan gyfarwyddyd University College London Hospitals NHS Foundation Trust. Dim ond rheolwyr y project 'Join dementia research' yn UCL, ac ymchwilwyr wedi eu cymeradwyo, staff y GIG a desgiau cymorth yr elusen sydd wedi eu cofrestru i ddefnyddio 'Join dementia research' fydd yn gallu gweld eich gwybodaeth.

Gall ymchwilwyr wedi eu cymeradwyo fod wedi eu cyflogi gan y GIG, gan sefydliadau masnachol neu gan brifysgolion, sy'n gweithio er budd meddygol. Caiff yr holl ymchwilwyr eu hasesu a'u cymeradwyo ar y sail bod eu cyflogwyr wedi ymrwymo i lynu wrth ein telerau a'n hamodau, a'n cytundebau prosesu data, a'u bod yn gweithio ar astudiaethau a gymeradwywyd yn foesebol. Bydd ymchwilwyr yn edrych ar wybodaeth amdanoch ar 'Join dementia research' mewn perthynas ag astudiaethau rydych yn cyfateb iddynt yn unig.

Ceir rhestr o sefydliadau sydd wedi eu cymeradwyo i ddefnyddio 'Join dementia research' ar ein gwefan www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk/help.

BETH SY'N DIGWYDD OS BYDDAF YN CAEL FY MHARU AG ASTUDIAETH?

Os byddwch yn cael eich paru ag astudiaeth, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu eich bod yn gymwys i gymryd rhan. Efallai y bydd angen edrych yn fwy manwl ar eich cofnodion meddygol i wneud yn siŵr eich bod yn addas. Os ydych yn gymwys, efallai y bydd ein tîm ymchwil yn cysylltu â chi, yna cewch benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio.

PWY FYDD YN GALLU GWELD FY NGHOFNODION MEDDYGOL?

Cedwir y wybodaeth sydd ar 'Join dementia research' ar wahân i'r cofnodion meddygol a gedwir gan eich meddyg teulu ac/ neu eich ymgynghorydd ysbyty. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ymchwilydd hefyd yn dymuno gweld eich cofnodion meddygol. Bydd y manylion ychwanegol yn eich cofnodion meddygol yn eu helpu i asesu a ddylent gysylltu â chi ai peidio ynglŷn ag astudiaeth benodol. Wrth gofrestru i ddefnyddio 'Join dementia research' byddwn yn gofyn i chi am ganiatâd i weld eich cofnodion meddygol. Dim ond ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo a staff GIG sydd wedi eu hasesu yn unol â dulliau gweithredu Research in the NHS: Human Resource (HR) Good Practice fydd â hawl i weld eich cofnodion meddygol. Rhaid i unrhyw un sy'n mynd i edrych ar eich cofnodion meddygol ddilyn Cod Ymarfer Cyfrinachedd y GIG ynghyd â Deddf Diogelu Data 1998. **Golyga hyn y byddant yn edrych ar y wybodaeth yn eich cofnodion meddygol sy'n berthnasol i asesu a allech fod yn addas i ni gysylltu â chi ynglŷn â phroject ymchwil yn unig, a bydd rhaid iddynt gadw eich gwybodaeth yn ddiogel.** Ni fyddant yn datgelu unrhyw wybodaeth yn eich cofnodion i unrhyw berson heb ei awdurdodi. Bydd datgelu unrhyw wybodaeth sydd yn eich cofnodion heb awdurdod gan unrhyw ymchwilydd yn drosedd a allai arwain at eu herlyn.

PWY FYDD YN CYSYLLTU Â MI YNGL N AG ASTUDIAETHAU YMCHWIL PERTHNASOL?

Bydd aelod o'ch tîm gofal iechyd neu aelod o'r tîm astudio sy'n cynnal yr ymchwil yn cysylltu â chi, a bydd yn esbonio'r astudiaeth i chi. Pan roeddech yn cofrestru ar gyfer 'Join dementia research' byddwch wedi nodi pa ffordd fyddai orau gennych i ni gysylltu â chi (ffôn, llythyr, neges destun neu ebost). Cewch ddewis a ydych am gymryd rhan mewn unrhyw astudiaeth ymchwil ai peidio, ac ni fydd eich penderfyniad yn effeithio ar eich aelodaeth o 'Join dementia research'. Byddwch bob amser mewn rheolaeth. Bydd 'Join dementia research' yn cadw cofnod o'r astudiaethau rydych yn cymryd rhan ynddynt.

**CEDWIR Y WYBODAETH SYDD AR
'JOIN DEMENTIA RESEARCH' AR
WAHÂN I'R COFNODION MEDDYGOL
A GEDWIR GAN EICH MEDDYG TEULU
AC/NEU EICH YMGYNHORYDD
YSBYTY.**

BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDDAF EISIAU TYNNU'N ÔL O 'JOIN DEMENTIA RESEARCH'?

Mae gennych hawl i dynnu'n ôl unrhyw bryd heb roi rheswm dros wneud hynny. Bydd eich manylion yn cael eu dileu. Ni fyddwn yn cysylltu â chi ynghylch unrhyw astudiaethau pellach. Ni fydd tynnu'n ôl o 'Join dementia research' yn effeithio ar unrhyw astudiaethau ymchwil rydych eisoes wedi dewis bod yn rhan ohonynt nac ychwaith ar safon y gofal iechyd rydych yn ei gael. Os ydych yn penderfynu nad ydych yn dymuno parhau i fod yn rhan o 'Join dementia research', dylech gysylltu â'r Rheolwr Cofrestru (manylion isod) neu ffonio un o'r Llinellau Cymorth:

Alzheimer
Scotland

0808 808 3000

Ar gael 24 awr y diwrnod,
7 diwrnod yr wythnos

(Alban)

Alzheimer's
Research UK

0300 111 5 111

Dydd Llun – ddydd Gwener
9am – 5pm

(Drwy'r DU)

Cymdeithas
Alzheimer

0300 222 1122

Dydd Llun - ddydd Mercher 9am - 8pm

Dydd Iau a dydd Gwener 9am – 5pm

Dydd Sadwrn a dydd Sul 10am - 4pm

(Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon)

Mae galwadau i Alzheimer Scotland am ddim. Mae galwadau i Alzheimer's Research UK a Chymdeithas Alzheimer yn costio'r un faint â galwadau cenedlaethol o unrhyw fath o ffôn neu ddarparwr ac mae galwadau'n cael eu cynnwys mewn pecynnau galwadau am ddim ar linell dir a ffonau symudol.

'Join dementia research' Register Manager:

c/o Box 81, National Hospital for Neurology & Neurosurgery

Queen Square, LONDON, WC1N 3BG

ebost: manager.jdr@nhr.ac.uk

**PWY SYDD
WEDI SEFYDLU
A CHYLLIDO
'JOIN DEMENTIA
RESEARCH'?**

**Cyllidir y gwasanaeth gan yr
Adran Iechyd ac mae'n cael
ei gynnal mewn partneriaeth
â'r Sefydliad Cenedlaethol er
Ymchwil Iechyd, Alzheimer
Scotland, Alzheimer's Research UK
a Chymdeithas Alzheimer.**

BETH YW'R BROSES O RAN ADNABOD A DILEU MANYLION POBL SYDD WEDI MARW?

Gofynnir i bob gwirfoddolwr a chynrychiolydd roi caniatâd i'r wybodaeth am eu statws iechyd gael ei diweddaru gan 'Join dementia research' os bydd eu statws yn newid (h.y. yn achos eu marwolaeth). Mae hyn yn golygu y byddai'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi gwybod yn awtomatig i 'Join dementia research' yn achos marwolaeth person sydd wedi'i gofrestru. Bydd Rheolwr Cofrestru 'Join dementia research' yn defnyddio ffynonellau priodol i sicrhau bod y wybodaeth hon yn gywir, yna bydd yn diweddaru statws yr unigolyn dan sylw ac yn dileu ei wybodaeth o'r gwasanaeth. Mae'r drefn hon o ddiweddaru a chynnal y gwasanaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

BETH OS BYDD PROBLEM YN CODI?

Os bydd gennych unrhyw broblemau'n ymwneud â'ch gofal clinigol, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil benodol, dylech gysylltu â thîm ymchwil yr astudiaeth honno. Mae manylion cyswllt tîm ymchwil yr astudiaethau rydych yn cymryd rhan ynddynt i'w cael ar wefan 'Join dementia research'. Mae modd ymdrin ag unrhyw broblemau'n ymwneud â 'Join dementia research' drwy ffonio un o'r Llinellau Cymorth isod, neu drwy gysylltu â'r Rheolwr Cofrestru ar y wefan yn - www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk/contactus

Mae manylion ein trefn gwyno i'w cael yn - www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk/policiesandprocedures

SUT YDW I'N RHEOLI FY NGHYFRIF AC YN DIWEDDARU FY NGWYBODAETH?

Gallwch fynd i'ch cyfrif a diweddaru'ch manylion unrhyw bryd trwy fynd i www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk a mewngofnodi gyda'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair unigryw. Os nad oes gennych enw defnyddiwr, cysylltwch â'r Llinellau Cymorth.

Ar ôl i chi fewngofnodi, byddwch yn gweld eich tudalen 'Volunteer Page'. Ar y dudalen hon, gallwch ddiweddaru neu olygu eich gwybodaeth gwirfoddoli eich hun neu gofrestru rhywun arall a chynnal eu gwybodaeth ar eu rhan. Os nad oes cyfrifiadur ar gael gennych, gallwch hefyd ffonio un o'r Llinellau Cymorth i ddiweddaru eich gwybodaeth.

BETH OS NAD OES ASTUDIAETHAU SY'N CYD-FYND Â'M MANYLION I?

Po fwyaf o wybodaeth rydych yn ei gynnig, y gorau oll i ni allu eich paru ag astudiaethau newydd.

Gallwch gynyddu'ch siawns o gael eich paru ag astudiaethau addas drwy fynd i'r wefan www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk 'a chwblhau'r wybodaeth drwy ateb y cwestiynau ychwanegol ar eich tudalen 'Volunteer Summary'. Gallwch hefyd ffonio un o'r Llinellau Cymorth i roi'r wybodaeth ychwanegol.

Yn anffodus, ni fydd astudiaethau ymchwil addas i'ch paru â chi bob amser. Ond gallwch gynyddu'ch siawns o gael eich paru ag astudiaethau addas drwy:

- Wneud yn siŵr eich bod yn creu 'rhybudd' pwrpasol i roi gwybod i chi am astudiaethau yn y dyfodol. Mae astudiaethau newydd yn cael eu hychwanegu'n barhaus a gallwch ddatgan eich diddordeb mewn unrhyw un sy'n addas i chi pan rydych arlein.
- Golygu eich manylion personol i nodi eich bod yn barod i deithio. Mae'n bosib bod gan rai rhannau o'r wlad fwy o ymchwil dementia ar waith nag eraill. Os ydych yn hapus i deithio, efallai y cewch eich ystyried i gymryd rhan mewn astudiaethau yn yr ardaloedd hynny.




MAE ANGEN
GWIRFODDOLWYR
HOLLIACH YN OGYSTAL
Â GOFALWYR NEU
DEULUEDD POBL SYDD Â
DEMENTIA AR GYFER RHAI
ASTUDIAETHAU YMCHWIL

BETH ALLAF EI WNEUD AR FY NHUDALEN 'VOLUNTEER SUMMARY' ARLEIN?

- ✓ Gallwch ddod o hyd i'r astudiaethau sy'n addas i chi neu i'r person rydych wedi ei gofrestru.
- ✓ Gallwch ddarllen disgrifiad o bob astudiaeth sy'n addas i chi.
- ✓ Gallwch ddatgan eich diddordeb mewn astudiaeth i roi gwybod i ymchwilwyr yr hoffech gael rhagor o wybodaeth.
- ✓ Gallwch gofrestru proffil ar gyfer rhywun arall a rheoli eu cofnod ar eu rhan.
- ✓ Gallwch greu 'rhybudd' pwrpasol i roi gwybod i chi am astudiaeth yn y dyfodol.

www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk



**EWCH I'R WEFAN YN
RHEOLAIDD I WELD A OES
ASTUDIAETHAU ADDAS
I CHI AC I DDIWEDDARU
EICH GWYBODAETH**

A FYDD RHYWUN YN BENDANT YN CYSYLLTU Â MI YNGL N Â CHYMRYD RHAN MEWN ASTUDIAETH?

Yn anffodus, ni fydd astudiaethau ymchwil fydd yn addas i'w paru â chi ar gael bob amser. Wrth reswm, gall hyn fod yn siom i bobl sy'n awyddus i gymryd rhan mewn ymchwil. Nid yw cael cyfrif ar 'Join dementia research' yn golygu y bydd astudiaeth y gallech fod yn addas ar ei gyfer ar gael yn syth. Ond bydd gwasanaeth cenedlaethol yn golygu y gellir dechrau astudiaethau yn llawer cyflymach, ac mae astudiaethau newydd yn dechrau drwy'r amser.

RWYF WEDI ANGHOFIO FY NGHYFRINAIR. BETH DDYLWN I EI WNEUD?

Cliciwch ar y botwm 'Forgotten password/username?' yn y gornel dde ar frig y dudalen gartref. Yna gallwch ailosod eich cyfrinair trwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfeiriad ebost. Os nad oes gennych fynediad arlein, ffoniwch un o Linellau Cymorth yr elusen.

www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk

ASTUDIAETH ACHOS

Stori Nigel a Chantel

Mae Chantel a Nigel yn briod ers 32 mlynedd. Roedd Nigel wedi bod yn yrrwr bysiau ers 30 pan ddechreuodd gael problemau gyda rhifau a chyfrif. Dyna pryd y sylweddolodd Chantel efallai bod rhywbeth yn bod. Cafodd Nigel ddiagnosis o glefyd Alzheimer etifeddol cynnar yn 2009. Yn ystod un o'u hymweliadau â'r ysbyty, gofynnodd eu meddyg a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil i ddysgu mwy am achosion genetig y cyflwr.

"Gallaf ddweud yn onest bod cymryd rhan mewn ymchwil wedi newid ein bywydau wrth i ni deimlo fod gennym lawer mwy o ddealltwriaeth o'r clefyd, ac mae'r tîm ymchwil wedi gallu'n cefnogi ar hyd y ffordd. Mae'r hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn anhygoel. Roeddwn hefyd yn gallu ymdopi'n well wrth i ymchwilwyr yr astudiaeth fy helpu i ddeall datblygiad y clefyd yn ogystal

â'r opsiynau oedd ar gael o ran triniaethau. Mae'n bwysig gallu uno ymchwilwyr gyda'r cyhoedd a dyna beth mae 'Join dementia research' yn ei wneud. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn ffordd ymlaen o ran diagnosis o ddementia ac yn fodd o weithio tuag at ffordd o atal y clefyd. Mae'n bwysig ein bod yn gallu deall pam fod hyn yn digwydd i gymaint o bobl ifanc ac i gymaint o deuluoedd."

Chantel



MANYLION CYSWLLT

Ewch i'n gwefan yn:

www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk

gydag unrhyw ymholiadau cyffredinol am 'Join dementia research' neu os ydych angen help, ffoniwch:

Alzheimer Scotland 0808 808 3000 Ar gael 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos (Alban)	Alzheimer's Research UK 0300 111 5 111 Dydd Llun – ddydd Gwener 9am – 5pm (Drwy'r DU)	Cymdeithas Alzheimer 0300 222 1122 Dydd Llun - ddydd Mercher 9am - 8pm Dydd Iau a dydd Gwener 9am – 5pm Dydd Sadwrn a dydd Sul 10am - 4pm (Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon)
---	---	---

Mae galwadau i Alzheimer Scotland am ddim. Mae galwadau i Alzheimer's Research UK a'r Gymdeithas Alzheimer yn costio'r un faint â galwad cenedlaethol o unrhyw fath o ffôn neu ddarparwr ac mae galwadau'n cael eu cynnwys mewn unrhyw becynnau galwadau am ddim ar linell dir a ffonau symudol.

V2 (JDR04) Ionawr 2015

Cyllidir 'Join dementia research' gan yr Adran Iechyd ac mae'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd, Alzheimer Scotland, Alzheimer's Research UK a Chymdeithas Alzheimer.



**Alzheimer's
Society**

Leading the
fight against
dementia